



# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru Older People's Commissioner for Wales

Victoria Atkin MP  
Minister for Safeguarding and Afghan Resettlement  
2 Marsham Street  
London  
SW1P 4DF

**03442 640 670**

Rydym yn croesawu  
galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian  
Sqwâr Mount Stuart  
Caerdydd CF10 5FL

Anfonwyd y llythyr drwy e-bost:

[DomesticAbuseConsultation@homeoffice.gov.uk](mailto:DomesticAbuseConsultation@homeoffice.gov.uk)

Cambrian Buildings  
Mount Stuart Square  
Cardiff CF10 5FL

8 Medi 2021

Annwyl Weinidog

## Canllawiau Statudol Deddf Cam-drin Domestig

Diolch am y cyfle i ymateb i'r fframwaith canllawiau statudol drafft ar gyfer Deddf Cam-drin Domestig 2021.

Mae atal cam-drin pobl hŷn yn un o'm prif feysydd blaenoriaeth fel Comisiynydd. Ym mis Ebrill 2020, sefydlais [Grŵp Gweithredu](#) o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau y gall pobl hŷn gael y cymorth sydd ei angen arnynt i'w cadw'n ddiogel a'u hamddiffyn rhag camdriniaeth a throseddau. Rwy'n pryderu nad yw'r heriau penodol a wynebir gan bobl hŷn sydd mewn perygl o brofi, neu sy'n profi camdriniaeth, bob amser yn cael eu cydnabod yn ddigonol o fewn polisi ac ymarfer.

Mae'n gadarnhaol bod y diffiniad cyfreithiol o gam-drin domestig yn y Canllawiau yn cynnwys pob math o gamdriniaeth y tu hwnt i drais corfforol gan gynnwys cam-drin emosiynol, ymddygiad sy'n gorfodi neu'n rheoli, a cham-drin economaidd. Mae'r diffiniad ehangach hwn yn codi ymwybyddiaeth o'r nifer fawr o ymddygiadau gwahanol sy'n ffurfio cam-drin domestig, yng nghyd-destun perthnasoedd personol.

Yn y Canllawiau, rwy'n falch o weld bod cyfeiriad at rai o'r heriau ychwanegol a brofir gan bobl hŷn, gan gynnwys:

- bod cam-drin pobl hŷn ynghudd mewn ystadegau;
- y risg gynyddol o gam-drin pan fydd gan bobl hŷn anghenion gofal a chymorth;
- yr anawsterau a brofir gan lawer o bobl hŷn wrth ddatgelu camdriniaeth;
- methiant rhai gweithwyr proffesiynol i adnabod arwyddion cam-drin pobl hŷn; a'r

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- rhwystrau sy'n wynebu llawer o bobl hŷn o ran cael gafael ar wasanaethau arbenigol.

Er mwyn cryfhau ymwybyddiaeth o'r heriau ychwanegol hyn ac i dynnu sylw at y camau sydd eu hangen mewn ymateb iddynt, hoffwn dynnu eich sylw at ddau ddarn o ymchwil, a gomisiynwyd fel rhan o waith fy ngrŵp '[Grŵp Atal Cam-drin](#)'.

Mae'r darn cyntaf o ymchwil yn canolbwyntio ar yr angen i gynyddu lefelau llety priodol i bobl hŷn sy'n dymuno ffoi rhag perthnasoedd camdriniol<sup>1</sup>. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at brinder llety addas yng Nghymru ar gyfer pobl hŷn sy'n bwriadu gadael perthnasoedd camdriniol a'r camau sydd eu hangen i gynyddu lefelau'r gwasanaethau a ddarperir.

Mae'r ail ddarn o ymchwil yn archwilio i ba raddau y mae gwasanaethau arbenigol yn ystyried anghenion ac amgylchiadau penodol pobl hŷn o fewn eu cynlluniau a'u cymorth<sup>2</sup>. Mae'r adroddiad yn ei datgan yn glir bod llawer o wasanaethau i bob grŵp oedran yn methu ag ystyried anghenion penodol pobl hŷn a bod lefelau'r gwasanaeth sy'n cael eu defnyddio ymhlith pobl hŷn felly'n isel. Ystyrir hefyd y problemau o gydweithio rhwng gwasanaethau diogelu a cham-drin domestig. Yn gyson ag ymchwil flaenorol<sup>3</sup>, mae'n ymddangos bod y ddwy system yn gweithio mewn ffyrdd ar wahân i raddau helaeth; sy'n golygu nad yw llawer o bobl hŷn sy'n profi camdriniaeth yn cael mynediad i'r ystod lawn o wasanaethau diogelu a cham-drin domestig arbenigol. Rhaid rhoi strategaethau ar waith i fynd i'r afael â'r pryder hwn a hwyluso cydweithio rhwng y ddau faes ymarfer hyn.

Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at enghreifftiau o arfer da wrth ddarparu gwasanaethau'n benodol ar gyfer pobl hŷn sy'n profi, neu mewn perygl o gael eu cam-drin, gan gynnwys prosiect Dewis Choice<sup>4</sup>. Byddai'r Canllawiau'n elwa o ddefnyddio'r enghreifftiau arfer da hyn i hyrwyddo ffyrdd o weithio, sy'n annog ac yn galluogi pobl hŷn i ddefnyddio gwasanaethau arbenigol.

Dyma'r ddau brif bwynt yr hoffwn eu gwneud ynglŷn â'r Canllawiau:

- Mae'r disgrifiad o berthnasoedd 'â chysylltiad personol' yn y Canllawiau yn bwysig i wneud yn glir nad yw cyflawnwyr cam-drin domestig o reidrwydd yn byw o fewn yr un aelwydydd â'u dioddefwyr. O safbwynt ystadegol, mae pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn byw gyda'u cyflawnwyr na phobl iau<sup>5</sup>. Fodd bynnag, gall pobl hŷn hefyd gael eu cam-drin gan berthnasau sy'n byw y tu allan i'w cartref ac mae'n bwysig bod y cam-drin hwn hefyd yn cael ei ystyried yn 'gam-drin domestig', fel y gall dioddefwyr gael gafael ar y gofal a'r cymorth angenrheidiol. Felly, gellid ystyried ehangu'r diffiniad o 'gysylltiad personol' i gynnwys y rhai o fewn perthnasoedd nad ydynt yn berthnasau, gan y gall pobl hŷn ddibynnu ar ffrindiau a/neu gymdogion am gymorth corfforol ac emosiynol.<sup>6</sup>
- Mae defnyddio astudiaethau achos yn bwysig wrth dynnu sylw at rai o'r materion a godwyd yn y Canllawiau, ond mae'n siomedig nodi nad oes astudiaethau achos yn

amlygu'r heriau penodol y mae pobl hŷn yn eu hwynebu. Byddai'r Canllawiau'n elwa ar gyflwyno astudiaethau achos i godi ymwybyddiaeth o rai o'r heriau penodol sy'n wynebu pobl hŷn sy'n cael eu cam-drin.

Fel y nodwch yn y Canllawiau, mae pobl hŷn mewn perygl arbennig o gael eu cam-drin ac rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod y gwasanaethau a'r cymorth cywir ar waith i'w diogelu. I'r perwyl hwnnw, rwy'n gobeithio bod y wybodaeth a ddarperir yn y papur hwn yn ddefnyddiol a bod y pwyntiau a wneir o werth wrth barhau i ddatblygu'r Canllawiau. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir



Heléna Herklots CBE  
**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**

---

<sup>1</sup> Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2020). Llety a chefnogaeth i bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin. Ar gael yn: [https://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Accommodation\\_Workshop\\_Report\\_w.sflb.ashx](https://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Accommodation_Workshop_Report_w.sflb.ashx)

<sup>2</sup> Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2021). *Gwasanaethau Cymorth i Bobl Hŷn sy'n Profi Camdriniaeth yng Nghymru*. Ar gael yn: [https://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Gwasanaethau\\_Cymorth\\_i\\_Bobl\\_H%c5%b7n\\_sy\\_n\\_Profi\\_Camdriniaeth\\_yng\\_Nghymru.sflb.ashx](https://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Gwasanaethau_Cymorth_i_Bobl_H%c5%b7n_sy_n_Profi_Camdriniaeth_yng_Nghymru.sflb.ashx)

<sup>3</sup> Wydall, S., Clarke, A., Williams, J. a Zerk, R. (2018). *Domestic Abuse and Elder Abuse in Wales: A Tale of Two Initiatives*. *British Journal of Social Work* (48), tt. 962-891.

<sup>4</sup> Canolfan Oedran, Rhywedd a Chyfiawnder Cymdeithasol (2021) *Menter Dewis Choice*. Ar gael yn: <https://dewischoice.org.uk/cy/what-we-do/dewis-choice-initiative/>

<sup>5</sup> Safe Lives (2016). *Safe Later Lives: Older People and Domestic Abuse*. Ar gael yn: <https://safelives.org.uk/sites/default/files/resources/Safe%20Later%20Lives%20-%20Older%20people%20and%20domestic%20abuse.pdf>

<sup>6</sup> Andrews, J. 2017. *Abuse of Older People: The Responsibilities of Community Nurses*. *British Journal of Community Nursing* 2222(5), tt. 224-225